# Polisi Masnach Deg

TAFLEN GLAWR Y POLISI

## Manylion Allweddol

| | |
|---|---|
| ***TEITL Y POLISI*** | *Polisi Masnach Deg (Polisi ar y Cyd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac Undeb y Myfyrwyr)* |
| ***DYDDIAD CYMERADWYO*** | *7 Mai 2025* |
| ***CORFF CYMERADWYO*** | *Bwrdd Academaidd* |
| ***FERSIWN*** | *1.2* |
| ***DYDDIADAU YR ADOLYGIAD BLAENOROL*** | *Medi 2020, Mehefin 2022* |
| ***DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF*** | *Mawrth 2027* |
| ***CANLYNIAD ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB*** | ** Dim newid mawr* |
| ***POLISÏAU / GWEITHDREFNAU / CANLLAWIAU CYSYLLTIEDIG*** | *Strategaeth Cynaliadwyedd*<br>*Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd*<br>*Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd*<br>*Polisi Bwyd Cynaliadwy*<br>*Targedau cynaliadwyedd a ffocws Rheoli Carbon* |
| ***DYDDIAD GWEITHREDU*** | *Mai 2025* |
| ***PERCHENNOG Y POLISI (TEITL SWYDD)*** | *Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd* |
| ***UNED / GWASANAETH*** | *Yr Amgylchedd, Ystadau a Chynaliadwyedd* |
| ***E-BOST CYSWLLT*** | Sustainability@cardiffmet.ac.uk |

## Rheoli Fersiynau

| ***FERSIWN*** | ***DYDDIAD*** | ***RHESWM DROS NEWID*** |
|---|---|---|
| *1.0* | *Medi 2020* | *Fersiwn cyntaf* |
| *1.1* | *Mehefin 2022* | *Adolygu, diweddaru'r Pwyllgor adrodd a chywiro testun.* |
| *1.2* | *Mai 2025* | *Adolygu, diweddaru'r Pwyllgor adrodd a* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *chywiro testun, gan gynnwys Nodau Datblygu Cynaliadwy.* |

## Cynnwys


Manylion Allweddol ... 1

Rheoli Fersiynau ... 1

1 Cyflwyniad ... **Error! Bookmark not defined.**

2 Adran Polisi ... 5

3 Rolau a Chyfrifoldebau ... 5

4 Polisïau a Gweithdrefnau Cysylltiedig ... 5

5 Adolygu a Chymeradwyo ... 5

# Polisi Masnach Deg
# (Polisi ar y Cyd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Metropolitan Caerdydd)

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Pwrpas

1.1.1 Mae'r Sefydliad Masnach Deg yn bodoli i sicrhau gwell bargen i gynhyrchwyr o wledydd sy'n datblygu'n economaidd sydd wedi'u ymyleiddio ac sydd dan anfantais ac mae'n dyfarnu label defnyddiwr, y Nod Masnach Deg, i gynhyrchion sy'n bodloni safonau masnach deg a gydnabyddir yn rhyngwladol.

1.1.2 Mae cyflenwi cynnyrch Masnach Deg yn dangos ymrwymiad ar y cyd i gynaliadwyedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Metropolitan Caerdydd.

### 1.2 Cwmpas

1.2.1 Mae cynnal statws Masnach Deg yn creu cyfle i greu ymwybyddiaeth o ethos y Brifysgol gyda darpar fyfyrwyr a staff. Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn rhoi pwys mawr ar eu rolau o fewn y gymuned ryngwladol, gan fod Masnach Deg yn fater byd-eang.

1.2.2 Mae'r rhaglen Masnach Deg yn cefnogi sefydliadau i ymgorffori arferion moesegol a chynaliadwy trwy eu cwricwlwm, caffael, ymchwil ac ymgyrchoedd.

1.2.3 Wrth ennill ardystiad Masnach Deg, mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi cyflawni'r nodau canlynol;

1.2.3.1 Annog staff a myfyrwyr i brynu nwyddau Masnach Deg i'w defnyddio yn y Brifysgol.

1.2.3.2 Ymrwymiad i ymgyrchu am fwy o ddefnydd Masnach Deg ar y Campws.

1.2.3.3 Parhau â'r Grŵp Llywio Masnach Deg gyda staff a myfyrwyr yn bresennol

1.2.4 Byddwn yn parhau i ddilyn y nodau hyn tra'n gweithio i gynnal statws Masnach Deg drwy weithio tuag at feini prawf Achredu Prifysgolion Sefydliad Masnach Deg.

1.2.5 Mae'r Polisi hwn yn cefnogi Nod Datblygu Cynaliadwy rhifau 1; 2; 3; 4; 5; 6; 8; 10; 12; 13; 16 a 17.




**Commented [MOU1]:** These images are not editable. Please see translations below:

No poverty – Dim tlodi
Zero hunger – Dim newyn
Good health and well-being – Iechyd a llesiant da
Quality education – Addysg o ansawdd
Gender equality – Cydraddoldeb rhywedd
Clean water and sanitation – Dŵr glân a glanweithdra
Decent work and economic growth – Gwaith teilwng a thwf economaidd
Reduced inequalities – Llai o anghydraddoldebau
Responsible consumption and production – Defnyddio a chynhyrchu cyfrifol
Climate action – Gweithredu ar newid hinsawdd
Peace, justice and strong institutions – Heddwch, cyfiawnder a sefydliadau cryf
Partnerships for the goals – Partneriaethau ar gyfer y nodau




1.3 **Diffiniadau**

1.3.1 **Grŵp Llywio Masnach Deg**. Bydd Grŵp Llywio Masnach Deg yn cyfarfod bob tymor i ddatblygu, cydlynu a goruchwylio gweithrediad Polisi Masnach Deg a Chynllun Gweithredu SMART y Brifysgol i gynnal a chyflawni achrediad Prifysgol Masnach Deg. Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cynnwys myfyrwyr a staff, cynrychiolwyr o adran Arlwyo a Lletygarwch y Brifysgol, yr adran Cynaliadwyedd, y Stiwdio ac Undeb y Myfyrwyr.

1.3.2 **Cynllun Gweithredu SMART**. Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cydlynu ac yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu SMART. Bydd y cynllun yn ymgorffori ystyriaethau gweithredol megis caffael ac arlwyo, ymgyrchu a dylanwadu, ymgysylltu a chyfathrebu a bydd yn canolbwyntio'n gryf ar fesur a gwerthuso'r holl weithgareddau. Bydd uwch reolwyr a/neu gyrff llywodraethu yn ei gymeradwyo. Bydd y Cynllun Gweithredu yn cwmpasu'r holl feini prawf gorfodol ac yn anelu at gyflawni'r holl feini prawf uchelgeisiol ar gyfer yr achrediad.

1.3.3 **Hyrwyddo Masnach Deg**. Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cydgysylltu â staff, myfyrwyr a’r gymuned i drefnu digwyddiadau cyhoeddusrwydd a gweithgareddau ymgysylltu bob blwyddyn. Anelu at sicrhau bod mater ymwybyddiaeth Masnach Deg yn cael ei gynnal ac ehangu cyrhaeddiad ymgyrch y Brifysgol ac annog myfyrwyr a staff i brynu a chwilio am nwyddau Masnach Deg. Cynhelir cyfres o'r digwyddiadau hyn yn ystod Pythefnos Masnach Deg a chaiff eu heffeithiau eu mesur a'u defnyddio i lywio ymgyrchoedd Masnach Deg pellach. Yn ogystal â Phythefnos Masnach Deg, bydd un neu fwy o ymgyrchoedd arloesol i addysgu staff, myfyrwyr a’r gymuned ar Fasnach Deg yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn.

1.3.4 **Cynhyrchion Masnach Deg**. Bydd yr holl siopau manwerthu ac arlwyo sy’n eiddo i’r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn cynnwys, ac yn ymrwymo i gynyddu, amrywiaeth o gynhyrchion Ardystiedig Masnach Deg yn y categorïau canlynol: Te, Coffi, Siwgr, Siocled Poeth a Choco, Siocled, Melysion neu Byrbrydau a dillad Cotwm. Bydd y cynhyrchion hyn yn cael eu hyrwyddo i staff a myfyrwyr gyda deunydd Pwynt Gwerthu (POS) cyfredol ac effeithiol ym mhob allfa berthnasol. Bydd y deunyddiau POS yn amlygu cynnyrch Masnach Deg ac yn darparu gwybodaeth am fanteision Masnach Deg i gymunedau sy'n tyfu.

1.3.5 Bydd **coffi, te a siwgr Masnach Deg** yn cael eu gweini ym mhob cyfarfod a gynhelir gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ac mewn ystafelloedd cyfarfod. Bydd nwyddau Masnach Deg eraill lle bo'n addas ar gael ar gyfer lletygarwch.

Pan fydd lletygarwch yn cael ei archebu a'i ddosbarthu bydd deunydd hyrwyddo clir i ddangos bod y cynnyrch yn Fasnach Deg.

1.3.6 **Ymchwil a Chwricwlwm**. Bydd y Grŵp Llywio Masnach Deg yn cynnal gweithgareddau cwmpasu perthnasol i lywio ei waith Masnach Deg drwy ddeall i ba raddau y mae myfyrwyr a staff yn deall Masnach Deg ac yn graddio ei harwyddocâd. Bydd y canlyniadau sy'n deillio o'r gweithgareddau'n cael eu defnyddio i lywio ymgyrchoedd Masnach Deg. Rhoddir cyfleoedd i fyfyrwyr o unrhyw ddisgyblaeth ymchwilio i faterion Masnach Deg ar y campws neu oddi arno yn eu gwaith cwrs neu draethodau hir.

1.3.7 **Adroddiad Blynyddol**. Bydd Adroddiad Cynnydd Masnach Deg yn cael ei gyhoeddi gyda'r Cynllun Gweithredu SMART yn cael ei ailgyhoeddi, gan gyfeirio at y tasgau a'r cynnydd a wnaed.

1.3.8 **Nodau Datblygu Cynaliadwy** - Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) yn set o 17 nod a sefydlwyd yn 2015 gan y Cenhedloedd Unedig (CU). Bwriad y nodau yw creu byd mwy cynaliadwy a theg drwy fynd i'r afael â heriau byd-eang.

1.3.9 **ISO 14001** Mae gweithgareddau'r Brifysgol yn cael effaith ar yr amgylchedd, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein System Rheoli Amgylcheddol (SRhA) yn barhaus ac i ragori ar ofynion ISO 14001. Cefnogir hyn gan gyhoeddiad ac adrodd ar amcanion clyfar a blaenoriaethau i gyflawni'r SRhA, y Strategaeth Gynaliadwyedd a'r Cynllun Rheoli Carbon gyda pholisïau thema cynaliadwyedd.

## 2 Adran Polisi

### 2.1 Statws Masnach Deg

2.1.1 Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi ymrwymo i gefnogi, hyrwyddo a defnyddio nwyddau Masnach Deg. I gyflawni hyn, byddant yn ennill ac yn cynnal statws Masnach Deg fel y'i diffinnir gan y Sefydliad Masnach Deg, fel y'i gosodwyd gan y Sefydliad yn www.fairtrade.org.uk

## 3 Rolau a Chyfrifoldebau

3.1 Y Rheolwr Ymgysylltu Cynaliadwyedd ac Undeb Myfyrwyr Metropolitan Caerdydd sy'n berchen ar y polisi ac fe'i gweithredir gan Grŵp Llywio Masnach Deg dan gyfarwyddyd Pwyllgor yr Amgylchedd, Ystadau a Chynaliadwyedd.

## 4 Polisïau a Gweithdrefnau Cysylltiedig

4.1.1 Gellir darllen y polisi hwn ar y cyd â:-

4.1.1.1 Strategaeth Cynaliadwyedd

4.1.1.2 Strategaeth Ymgysylltu â Chynaliadwyedd

4.1.1.3 Polisi Bwyd Cynaliadwy

## 5 Adolygu a Chymeradwyo

5.1.1 Bydd perchnogion y polisi yn darparu diweddariadau o gynllun gweithredu Polisi Masnach Deg i Bwyllgor Amgylchedd, Ystadau a Chynaliadwyedd y Brifysgol, i'w fonitro, ei adolygu a'i gymeradwyo.

5.1.2 Bydd y Brifysgol yn annog yn barhaus aelodau o gymuned staff a myfyrwyr y Brifysgol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ymgysylltu â'r Polisi Masnach Deg drwy bostio'r polisi ar dudalennau gwe'r Brifysgol a leolir o dan yr adran Polisïau Cynaliadwyedd a thudalennau gwe Undeb y Myfyrwyr gyda'r manylion cyswllt priodol.

5.1.3 Mae croeso i bob aelod o'r gymuned staff a myfyrwyr gyfrannu at yr adolygiad blynyddol o'r polisi hwn; hwyluso gan grwpiau ffocws agored.

5.1.4 Dylid cyfeirio adborth Polisi Masnach Deg at: Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd: sustainable@cardiffmet.ac.uk ac Undeb y Myfyrwyr: studentunion@cardiffmet.ac.uk

5.1.5 Er mwyn monitro effeithiolrwydd ymgysylltiad myfyrwyr a staff, bydd yr holl adborth yn cael ei adolygu yn y Pwyllgor Ystadau, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.